Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Vision Clinic, Porthcawl

Dyddiad arolygu: 12 Mawrth 2024
Dyddiad cyhoeddi: 12 Mehefin 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-83625-171-2
© Hawlfraint y Goron 2024

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5
2. Crynodeb o'r arolygiad ........ 6
3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 8
    - Ansawdd Profiad y Claf ........ 8
    - Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 11
    - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 14
4. Y camau nesaf ........ 16

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 17

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 18

Atodiad C – Cynllun gwella ........ 19

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Vision Clinic ym Mhorthcawl ar 12 Mawrth 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o uwch-arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Roedd y clinig yn ymrwymedig i ddarparu gofal i gleifion mewn amgylchedd a oedd yn addas i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol ar eu profiadau gan ddweud bod y gwasanaeth yn ‘dda iawn’. Roedd y cleifion yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch a bod mesurau priodol wedi cael eu cymryd i amddiffyn eu preifatrwydd yn ystod eu hamser yn y clinig. Roedd holiadur electronig ar gael i gasglu adborth cleifion. Gwnaethom argymell y dylai'r gwasanaeth ddarparu fersiynau papur o'r holiadur i'r cleifion hynny nad oes ganddynt fynediad digidol eu cwblhau.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:
- Rhaid i'r gwasanaeth adolygu a diweddaru ei ganllaw i gleifion os oes angen a sicrhau bod copïau ar gael i'r cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:
- Roedd gan y clinig bolisi amrywiaeth a chydraddoldeb a dywedwyd wrthym y byddai pob claf yn cael ei drin yn gyfartal
- Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth iechyd berthnasol gan y clinig yn dilyn eu diagnosis.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Roedd gan y clinig drefniadau addas ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd y trefniadau hyn yn cael eu hategu gan amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol a pherthnasol. Roedd amgylchedd y clinig yn lân yr olwg, yn daclus ac mewn cyflwr da. Roedd trefniadau a phroses addas ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau a dihalogi'r cyfarpar a ddefnyddir yn y clinig. Gwelsom fod cofnodion y cleifion a oedd yn cael eu cadw yn y clinig yn glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:
- Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y cynnig i gleifion gael hebryngwr yn cael ei gofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:
- Roedd cyfarpar wedi cael ei wasanaethu a'i galibradu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio

- Roedd y polisi diogelu yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol
- Roedd taflen wedi'i lamineiddio ar gael a oedd yn nodi'r driniaeth briodol ar gyfer argyfyngau cleifion megis anaffylacsis.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Roedd y staff yn canolbwyntio ar y cleifion ac yn meddu ar y sgiliau priodol i roi gofal diogel i'r cleifion. Roedd y trefniadau llywodraethu a ddisgrifiwyd ac a ddangoswyd yn effeithiol. Roedd y gwasanaethau yn cael eu darparu'n unol â'r datganiad o ddiben. Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar gael a oedd yn disgrifio sut y gallai cleifion wneud cwyn petaent yn dymuno gwneud hynny. Roedd cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gael i'r staff petaent yn dymuno datblygu eu rolau.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:
- Dylai'r weithdrefn gwyno fod ar gael yn haws i'r cleifion er mwyn sicrhau nad oes rhaid iddynt ofyn am gopi yn bersonol
- Rhaid diweddaru'r polisi recriwtio a sefydlu er mwyn cynnwys y gwiriadau diogelwch cyn cyflogi y mae'n rhaid i bob aelod newydd o staff eu darparu er mwyn penderfynu a yw'n addas
- Rhaid diweddaru pob disgrifiad swydd a rhaid i'r staff lofnodi eu contract cyflogaeth
- Rhaid dogfennu trafodaethau yn ystod arfarniadau blynyddol a rhoi copi i'r staff.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

**Adborth gan gleifion**
Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y clinig i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig. Derbyniwyd cyfanswm o 19 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd yr adborth yn gadarnhaol a nododd pob un o'r cleifion fod y gwasanaeth yn ‘dda iawn’.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“Mae hwn yn glinig ardderchog. Alla i ddim canmol fy nhriniaeth a'm gofal ddigon. Staff cyfeillgar a phroffesiynol.”*

*“Er fy mod ychydig yn bryderus cyn y llawdriniaeth, roedd popeth a phawb a oedd yn gysylltiedig â'r llawdriniaeth y tu hwnt i bob disgwyl. Rwy'n hapus iawn ac yn fwy na bodlon.”*

*“Lleoliad rhagorol. Hoffwn i weld gwasanaeth o'r fath yn cael ei ddarparu yn ysbytai'r GIG.”*

**Diogelu a gwella iechyd**
Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth iechyd gan y clinig yn dilyn eu diagnosis. Er enghraifft, roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am gataractau a dirywiad maciwlaidd cysylltiedig ag oedran (AMD) gwlyb a sut y gallai cleifion leihau eu risg o ddatblygu AMD drwy ddewis ffyrdd o fyw iach.

**Urddas a pharch**
Nid oedd gan unrhyw gleifion apwyntiad yn y clinig ar ddiwrnod yr arolygiad. Clywsom y staff yn y dderbynfa yn siarad â chleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar wrth siarad â nhw dros y ffôn.

Dywedwyd wrthym fod drysau ystafelloedd ymgynghori ac ystafelloedd trin bob amser yn cael eu cau pan fydd yr ystafelloedd hynny yn cael eu defnyddio. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch a bod mesurau priodol wedi cael eu cymryd i amddiffyn eu preifatrwydd yn ystod eu hamser yn y clinig. Dywedodd un claf:

*“Mae [y meddyg] a'i staff yn gofalu'n ddiwyd am y problemau gyda fy llygaid. Yn ogystal â bod yn broffesiynol mae [y meddyg] bob amser yn rhoi sylw i*

*fy anghenion a'm pryderon. Mae'n treulio amser yn esbonio popeth, sy'n golygu fy mod yn ymddiried yn llwyr yn ei alluoedd. Mae'n gwrtais ac yn effeithlon iawn. Mae'n amyneddgar ac yn llawn cydymdeimlad, does dim byd yn ormod o drafferth iddo ac mae'n fodlon ateb unrhyw bryderon a allai fod gen i. Roedd y safle yn ddiogel ac yn lân iawn ac roedd yn cynnwys digon o gyfarpar. Byddwn yn argymell y clinig hwn yn fawr."*

**Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**
Roedd canllaw i gleifion wedi'i lunio gan y gwasanaeth fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau ond roedd angen ei adolygu. Hefyd, nid oedd y canllaw i gleifion ar gael yn y clinig i'r cleifion ei ddarllen.

**Rhaid i'r gwasanaeth adolygu a diweddaru ei ganllaw i gleifion os oes angen a sicrhau bod copïau ar gael i'r cleifion.**

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur ac a gafodd driniaeth yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a'r risgiau a'r manteision. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am yr opsiynau triniaeth gwahanol sydd ar gael, unrhyw risgiau cysylltiedig, a'r costau perthnasol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf a gwelsom dystiolaeth bod cydsyniad dilys wedi'i gael gan y claf ym mhob achos. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur hefyd eu bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael eu triniaeth.

**Cyfathrebu'n effeithiol**
Gallai'r cleifion ofyn am apwyntiad gan ddefnyddio gwefan y clinig neu drwy ffonio'r clinig yn uniongyrchol. Mae'r cleifion yn cael gwybodaeth drwy'r post neu drwy e-bost cyn eu hapwyntiad. Roedd gwybodaeth yn cael ei darparu yn Saesneg yn bennaf, a byddai o fudd i'r clinig hysbysu cleifion y gall gwybodaeth gael ei darparu mewn ieithoedd eraill ar gais.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol y driniaeth, eu bod yn ateb eu cwestiynau ac yn gwrando arnynt. Dywedodd un claf:

*"Cafodd Vision Clinic a [y meddyg] eu hargymell i mi ac ar unwaith roeddwn i'n teimlo bod croeso i mi ac fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi. Gwnaed i mi deimlo'n gyfforddus o'r eiliad y cyrhaeddais y clinig. Cafodd pob un o fy nghwestiynau eu hateb yn glir ac, er y byddai unrhyw fath o lawdriniaeth wedi peri pryder a gofid i mi, gallaf ddweud yn gwbl ddiffuant, oherwydd yr amgylchedd roeddent wedi'i greu, nad oeddwn i'n teimlo'n bryderus."*

**Cynllunio a darparu gofal**

Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion bod anghenion y cleifion yn cael eu hasesu'n briodol. Roedd y cofnodion hefyd yn cynnwys crynodeb o gyflyrau meddygol arwyddocaol a meddyginiaethau hirdymor ar gyfer pob claf. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod eu hanes meddygol wedi cael ei gadarnhau cyn iddynt gael eu triniaeth.

Roedd pob un o'r cleifion a oedd wedi cael triniaeth yn cytuno eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal digonol gan gynnwys canllawiau clir ar yr hyn i'w wneud ac â phwy y dylent gysylltu pe bai ganddynt haint neu argyfwng.

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Roedd gan y clinig bolisi amrywiaeth a chydraddoldeb a dywedwyd wrthym y byddai pob claf yn cael ei drin yn gyfartal. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth neu ddefnyddio'r gwasanaeth yn y clinig.

**Ymgysylltu â dinasyddion a cheisio adborth**

Gall y cleifion sganio cod QR ar ddiwedd eu hapwyntiad i gael gafael ar holiadur er mwyn rhoi adborth ar eu profiadau yn y clinig yn electronig. Nodwyd gennym nad oedd unrhyw fersiynau papur o'r holiadur ar gael.

**Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod fersiynau papur o'r holiadur ar gael yn y clinig i'w cwblhau gan y cleifion hynny nad oes ganddynt fynediad digidol.**

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod yn cael adborth cadarnhaol gan gleifion fel arfer.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

**Yr Amgylchedd**
Gwelsom fod yr adeilad mewn cyflwr da, nad oedd unrhyw beryglon amlwg a'i fod wedi'i addurno i safon uchel. At hynny, roedd yn gynnes ac yn groesawgar, ac roedd awyrgylch cyffredinol ystafell y dderbynfa o safon uchel.

**Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**
Roedd lleoedd parcio ar gael ar y strydoedd o amgylch y clinig. Roedd yr holl gyfleusterau wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod a oedd yn golygu eu bod yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd.

Gwelsom dystiolaeth bod asesiadau risg priodol yn cael eu cynnal er mwyn helpu i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a phobl sy'n ymweld â'r clinig. Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y clinig, a gwelsom fod y cyfarpar hwn wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**
Dangosodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau o ran bodloni gofynion atal a rheoli heintiau. Roedd polisïau a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau cyfredol ar waith a oedd ar gael i'r staff.

Gwelsom fod amserlen lanhau ar waith a'i bod yn cael ei chynnal er mwyn dangos tystiolaeth o arferion glanhau effeithiol. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff er mwyn helpu i atal croes-heintio ac roedd cyfleusterau golchi dwylo ar gael hefyd.

Roedd pob un o'r ardaloedd a archwiliwyd gennym yn lân yr olwg ac yn daclus. Roedd yr amgylchedd mewn cyflwr da ac wedi'i ddodrefnu mewn ffordd a oedd yn hwyluso trefniadau glanhau effeithiol. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y clinig yn 'lân iawn' a bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Roedd system ar waith i reoli gwastraff clinigol yn briodol ac yn ddiogel. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau.

**Rheoli meddyginiaethau**
Roedd polisi rheoli meddyginiaethau cyfredol ar gael i'r staff. Nid oedd y clinig yn storio unrhyw feddyginiaethau ar bresgripsiwn ar adeg yr arolygiad, ond byddai meddyginiaethau yn cael eu harchebu yn ôl yr angen. Roedd stoc o ddiferion llygaid ar gael petai eu hangen ar gleifion yn dilyn eu triniaeth. Gwelsom fod y diferion llygaid yn cael eu storio'n ddiogel.

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**

Roedd polisi ar waith i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd y polisi yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol, a gwnaethom nodi bod hynny'n arfer da.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu priodol a dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wybodaeth dda am y gweithdrefnau diogelu a'r trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau.

**Dyfeisiau meddygol, cyfarpar a systemau diagnostig**

Roedd gan y clinig y cyfarpar a'r dyfeisiau meddygol perthnasol er mwyn diwallu anghenion y cleifion. Roedd y cyfarpar dan warantî a byddai'n cael ei atgyweirio mewn modd amserol. Gwelsom dystiolaeth o hanes gwasanaethu a chalibradu llawn ar gyfer pob darn o gyfarpar yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

Roedd y cyfarpar wedi cael ei osod a'i leoli er budd y claf. Roedd pob peiriant wedi'i osod o amgylch un gadair, gan leihau'r angen i'r cleifion newid cadair.

Gwelsom fod gweithdrefnau priodol ar waith a bod cyfarpar brys ar gael petai argyfwng megis claf yn llewygu. Roedd gwiriadau wythnosol yn cael eu cynnal a'u dogfennu er mwyn sicrhau bod y cyfarpar ar gael, yn gyfredol ac yn ddiogel i'w ddefnyddio. Roedd taflen wedi'i lamineiddio ar gael a oedd yn nodi'r driniaeth briodol ar gyfer argyfyngau megis anaffylacsis, a gwnaethom nodi bod hyn yn arfer da.

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

O'n trafodaethau â'r staff, a'n harchwiliad o gofnodion y cleifion, nodwyd gennym fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol. Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau clinigol perthnasol ar gael i'r staff i'w helpu yn eu gwaith. Roedd pob aelod o staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith yn y clinig.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Roedd systemau addas ar waith er mwyn asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu yn rheolaidd. Yn unol â'r rheoliadau, mae'r darparwr cofrestredig yn gofyn barn y cleifion yn rheolaidd fel ffordd o lywio gofal. Mae hefyd yn cynnal archwiliadau ac yn asesu risgiau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch.

Roedd perfformiad y rheolwr cofrestredig yn cael ei fonitro gan y Rhwydwaith Gwybodaeth am Ofal Iechyd Preifat. Gwelsom mai'r sgôr ddiweddaraf ar gyfer boddhad cleifion oedd 96 y cant.

**Rheoli cofnodion**

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cynnal yn electronig. Roedd y system wedi'i diogelu â chyfrinair er mwyn atal mynediad heb awdurdod ac achosion o dor-cyfrinachedd.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion meddygol pum claf, a nodwyd eu bod yn glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy. Roedd y cofnodion yn gyfredol ac yn cael eu cwblhau ar y pryd. Roedd nodiadau clir wedi'u cofnodi am y cyflwr a'r diagnosis, ac roedd tystiolaeth o'r opsiynau a gafodd eu cynnig i'r cleifion mewn perthynas â gwahanol driniaethau, ynghyd â'r risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â phob opsiwn.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael eu cynghori i ddod â rhywun gyda nhw fel hebryngwr pan fyddant yn cael eu triniaeth. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd y defnydd o hebryngwyr na'r cynnig o hebryngwyr yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.

**Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y cynnig i gleifion gael hebryngwr yn cael ei gofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion.**

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**
Roedd lefel briodol o oruchwyliaeth gan y rheolwr cofrestredig a'r staff. Disgrifiwyd llinellau adrodd clir. Roedd y rheolwr cofrestredig yn wybodus ac yn ymroddedig, ac roedd yn amlwg mai ei flaenoriaeth oedd sicrhau bod cleifion yn cael lefel briodol o ofal yn y clinig.

Roedd Datganiad o Ddiben cyfredol ar gael fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd yn cynnwys gwybodaeth am y clinig ynghyd â gwybodaeth am y gwasanaethau a gynigir a sut y gellid cael y gwasanaethau hynny.

Dywedodd aelodau o'r staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu gwaith gan y rheolwr cofrestredig.

**Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau**
Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar gael a oedd yn nodi sut y gallai cleifion wneud cwyn petaent yn dymuno gwneud hynny. Roedd y weithdrefn yn cynnwys manylion cyswllt AGIC. Fodd bynnag, nid oedd y weithdrefn gwyno yn cael ei harddangos yn y clinig a oedd yn golygu y byddai'n rhaid i'r cleifion ofyn am gopi.

**Dylai'r gwasanaeth sicrhau y gall cleifion gael gafael ar y weithdrefn gwyno yn hawdd heb orfod gofyn am gopi yn bersonol.**

Gan nad oedd unrhyw gwynion na digwyddiadau wedi codi, disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y broses a fyddai'n cael ei dilyn i adolygu cwynion neu ddigwyddiadau ac i rannu'r gwersi i'w dysgu o'r digwyddiadau hyn er mwyn hyrwyddo diogelwch a llesiant y cleifion.

**Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**
Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y gwiriadau diogelwch sy'n cael eu cynnal yn ystod y broses recriwtio er mwyn sicrhau bod aelodau newydd o staff yn addas i weithio yn y clinig. Mae'r rhain yn cynnwys geirdaon boddhaol, tystiolaeth o gymwysterau proffesiynol a gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd y gwiriadau diogelwch hyn wedi'u dogfennu yn y polisi recriwtio a sefydlu.

**Rhaid i'r gwasanaeth ddiweddaru'r polisi recriwtio a sefydlu er mwyn cynnwys y gwiriadau diogelwch cyn cyflogi y mae'n rhaid i bob aelod newydd o staff eu darparu er mwyn penderfynu a yw'n addas.**

Wrth edrych ar ffeiliau cyflogaeth y staff, gwelsom fod gan aelodau o staff ddisgrifiad swydd a chontract cyflogaeth. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd y disgrifiad swydd yn gyfredol a nodwyd gennym nad oedd y contract wedi'i lofnodi.

**Rhaid i'r gwasanaeth ddiweddaru pob disgrifiad swydd a sicrhau bod pob aelod o'r staff yn llofnodi ei gontract cyflogaeth.**

**Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**

Roedd y rheolwr cofrestredig, fel yr unig ymarferydd, o'r farn bod nifer presennol y staff yn y gwasanaeth yn briodol ar gyfer nifer y cleifion.

Roedd cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gael i'r staff petaent yn dymuno datblygu eu rolau. Roedd y staff yn cael arfarniadau blynyddol gan y rheolwr cofrestredig er mwyn eu helpu i ddysgu a datblygu. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd yr arfarniad blynyddol yn cael ei ddogfennu.

**Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y caiff trafodaethau yn ystod arfarniadau blynyddol eu dogfennu ac y rhoddir copi i'r staff.**

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Vision Clinic, Porthcawl

## Dyddiad yr arolygiad: 12 Mawrth 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | | |

# Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Vision Clinic, Porthcawl

**Dyddiad yr arolygiad:** 12 Mawrth 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Roedd canllaw i gleifion hefyd wedi'i lunio ond roedd angen ei adolygu. Hefyd, nid oedd y canllaw i gleifion ar gael yn y clinig i'r cleifion ei ddarllen. | Rhaid i'r gwasanaeth adolygu a diweddaru ei ganllaw i gleifion os oes angen a sicrhau bod copïau ar gael i'r cleifion. | Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion | Adolygwyd a diweddarwyd y canllaw i gleifion ar 15.05.2024. Ychwanegwyd y ddogfen hon at archwiliad blynyddol y clinig er mwyn ei diweddaru yn y dyfodol. Mae copi electronig a chopi caled o'r canllaw i gleifion bellach ar gael yn y clinig er mwyn i'r cleifion ei ddarllen. | Mr Vinod Kumar (Cyfarwyddwr meddygol) a'r tîm cymorth cydymffurfiaeth. | Cwblhawyd 15.05.2024 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2. | Dim ond ar ffurf electronig roedd yr holiadur profiad y claf ar gael. | Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod fersiynau papur o'r holiadur ar gael yn y clinig i'w cwblhau gan y cleifion hynny nad oes ganddynt fynediad digidol. | Ymgysylltu â dinasyddion a cheisio adborth | Mae copïau papur wedi'u hargraffu ac maent bellach ar gael yn y clinig, yn ogystal â'r fersiwn electronig. | Mr Vinod Kumar (Cyfarwyddwr meddygol) a'r tîm cymorth cydymffurfiaeth. | Cwblhawyd yn syth ar ôl yr arolygiad. 13.03.2024 |
| 3. | Nid oedd y defnydd o hebryngwyr na'r cynnig o hebryngwyr yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion. | Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y cynnig i gleifion gael hebryngwr yn cael ei gofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion. | Rheoli cofnodion | Bydd y cynnig i gleifion gael hebryngwr bellach yn cael ei gofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion. Cyfeirir at hyn yn y canllaw i gleifion hefyd. | Mr Vinod Kumar (Cyfarwyddwr meddygol) | Gweithredwyd ar ôl arolygiad AGIC. 13.03.2024 |
| **4.** | Nid oedd y weithdrefn gwyno yn cael ei harddangos yn y clinig a oedd yn golygu y byddai'n rhaid i'r cleifion ofyn am gopi. | Dylai'r gwasanaeth sicrhau y gall cleifion gael gafael ar y weithdrefn gwyno yn hawdd heb orfod gofyn am gopi yn bersonol. | Ymdrin â phryderon a rheooli digwyddiadau | Mae copïau papur bellach ar gael ac i'w gweld yn y clinig, yn ogystal â'r opsiwn ar gyfer defnyddio cod QR.<br>Cyfeirir at hyn yn y canllaw i gleifion hefyd. | Mr Vinod Kumar (Cyfarwyddwr meddygol) a'r tîm cymorth cydymffurfiaeth. | Cwblhawyd 15.05.2024. |
| **5.** | Nid oedd gwiriadau diogelwch cyn cyflogi wedi'u dogfennu yn y | Rhaid i'r gwasanaeth ddiweddaru’r polisi recriwtio a sefydlu er mwyn cynnwys y gwiriadau | Arferion recriwtio a chyflogi’r gweithlu | Mae hyn wedi'i ychwanegu at y polisi recriwtio. Rhaid i bob aelod o staff ddangos | Mr Vinod Kumar (Cyfarwyddwr meddygol) a'r | 15.05.2024 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | polisi recriwtio a sefydlu. | diogelwch cyn cyflogi y mae'n rhaid i bob aelod newydd o staff eu darparu er mwyn penderfynu a yw'n addas. | | gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn cael ei gyflogi. Caiff y gwiriad hwn ei ddiweddaru bob tair blynedd.<br><br>At hynny, caiff y dogfennau canlynol eu cadw ar gofnod hefyd:<br>Prawf adnabod â llun<br>Dau eirda<br>Tystiolaeth o gymhwyster (cymwysterau) | tîm cymorth cydymffurfiaeth. | |
| **6.** | Dywedwyd wrthym nad oedd disgrifiad swydd yn gyfredol a nodwyd gennym nad oedd contract cyflogaeth wedi'i lofnodi. | Rhaid i'r gwasanaeth ddiweddaru pob disgrifiad swydd a sicrhau bod pob aelod o'r staff yn llofnodi ei gontract cyflogaeth. | Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu | Diweddarwyd y disgrifiadau swydd blaenorol er mwyn adlewyrchu rolau cyfredol y staff. Mae copïau o gontractau wedi'u llofnodi bellach yn cael eu cadw mewn ffeil a rhoddir copïau i'r staff | Mr Vinod Kumar (Cyfarwyddwr meddygol) | Cwblhawyd 02.04.2024 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **7.** | Dywedwyd wrthym nad oedd yr arfarniad blynyddol yn cael ei ddogfennu. | Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y caiff trafodaethau yn ystod arfarniadau blynyddol eu dogfennu ac y rhoddir copi i'r staff. | Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol | Caiff copïau o ddogfennau arfarnu blynyddol (gan gynnwys cynlluniau datblygu personol) eu cadw mewn ffeil yn y clinig a rhoddir copi i'r staff. | Mr Vinod Kumar (Cyfarwyddwr meddygol) | Cwblhawyd 02.04.2024. |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau):** **Vinod Kumar / Laura Morgan**

**Teitl swydd:** **Cyfarwyddwr Clinigol / Cynorthwyydd Cymorth Cydymffurfiaeth**

**Dyddiad:** **15 Mai 2024**